

**Gwybodaeth i gleifion**

# Arbed celloedd yn ystod llawdriniaeth

## Beth yw arbed celloedd?

Mae arbed celloedd yn casglu gwaed a gollir yn ystod eich llawdriniaeth ac yn dychwelyd y celloedd gwaed coch yn ôl i chi.

## Ai dyma'r dewis cywir i mi?

Mae'r daflen hon yn darparu gwybodaeth bwysig i gleifion a hoffai wybod mwy am ddefnydd arbed celloedd ac a allai fod yn briodol yn ystod eu llawdriniaeth.

## Arbed celloedd

Mae'r daflen hon yn rhoi gwybodaeth i chi am arbed celloedd, pryd a sut y caiff ei ddefnyddio yn ogystal â'r risgiau a'r buddion. Mae hyn i'ch cefnogi wrth roi eich cydsyniad ar sail gwybodaeth i arbed celloedd gael ei ddefnyddio yn ystod eich llawdriniaeth.

Gallai unrhyw glaf sy'n debygol o waedu swm cymedrol yn ystod eu llawdriniaeth, mwy na 500mls, elwa o arbed celloedd.

## Mae gwaed wedi'i wneud o wahanol gelloedd a sylweddau: -

- Mae celloedd coch y gwaed yn cario ocsigen o amgylch eich corff.
- Mae celloedd gwaed gwyn yn eich helpu i ymladd heintiau neu afiechydon.
- Mae platennau'n helpu'r gwaed i geulo er mwyn atal gwaedu.
- Plasma yw'r hylif yn y gwaed sy'n cludo celloedd coch y gwaed, celloedd gwyn y gwaed a phlatennau o amgylch y corff, mae hefyd yn cynnwys sylweddau sy'n helpu gwaed i geulo.

## Sut mae arbed celloedd yn cael ei gyflawni?

Yn ystod eich llawdriniaeth, caiff y gwaed a gollir o safle'r llawdriniaeth ei drosglwyddo i beiriant arbennig a weithredir gan dîm hyfforddedig.

1. Caiff y gwaed a gesglir ei olchi â dŵr halen di-haint (halwynog) ac ychwanegir toddiant gwrthgeulydd i atal y gwaed rhag ceulo.
2. Caiff y gwaed a gesglir ei hidlo i gael gwared ar y rhan fwyaf o amhureddau a'i droelli mewn peiriant o'r enw allgyrchydd, sy'n caniatáu i gelloedd coch y gwaed wahanu oddi wrth weddill y gwaed a gesglir.
3. Caiff y deunydd gwastraff ei wagio i mewn i fag di-haint.
4. Os oes digon o gelloedd coch y gwaed wedi'u casglu, cânt eu golchi mewn dŵr halen di-haint yn barod i'w haildrwytho yn ôl i chi trwy diwb yn uniongyrchol i'ch gwythien.



## Pam y gallai fod angen trallwysiad gwaed arnaf?

Mae'n normal i golli gwaed wrth gael llawdriniaeth fawr. Bydd y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol sy'n gofalu amdanoch chi ar gyfer eich llawdriniaeth yn trafod y risg o waedu ac yn trafod yr opsiynau triniaeth priodol. Mewn rhai achosion, efallai y cynigir trallwysiad gwaed i chi i gymryd lle'r gwaed rydych chi wedi'i golli. Gall trallwysiadau gwaed fod ar ffurf:

- Eich gwaed eich hun wedi'i ddychwelyd i chi (celloedd coch y gwaed) – gelwir hyn yn drallwysiad gwaed arbed celloedd (a elwir hefyd yn waed awtologaidd).
- Gwaed a roddir gan roddwr gwaed – gelwir hyn yn drallwysiad gwaed alogenëig.

Mewn rhai llawdriniaethau, gellir cynnig gwaed gan rhoddwr i chi yn ogystal â'ch gwaed eich hun.

## Beth yw manteision derbyn fy nghelloedd gwaed coch fy hun?

- Mae derbyn eich gwaed eich hun yn lleihau'r risgiau o adwaith alergaidd neu haint o'i gymharu â derbyn trallwysiad gwaed gan roddwr.
- Mae'n debyg y bydd y celloedd gwaed coch sydd wedi'u haildrwytho yn well am gario a rhyddhau ocsigen i'ch corff na chelloedd gwaed coch gan roddwr. Gall hyn gefnogi eich adferiad a gwella clwyfau.
- Drwy dderbyn eich celloedd gwaed coch eich hun yn ôl, rydych chi'n llai tebygol o fod angen gwaed gan roddwr.
- Os mai dim ond trwy arbed celloedd rydych chi wedi derbyn eich gwaed eich hun yn ôl ac nid gan waed rhoddwr, efallai y byddwch chi'n dal yn gymwys i roi gwaed os dymunwch.
- Mae arbed celloedd yn fuddiol ar gyfer llawdriniaethau lle mae colli gwaed sylweddol.

## Beth yw'r risgiau o dderbyn fy nghelloedd gwaed coch fy hun?

- Mewn rhai achosion, efallai na fydd digon o waed yn cael ei golli i ddefnyddio arbed celloedd.
- Efallai na fydd yn addas ar gyfer pob math o lawdriniaethau, er enghraifft os oes risg o haint oherwydd y math o lawdriniaeth rydych chi'n ei chael, bydd eich tîm gofal iechyd yn ystyried y risgiau a'r buddion o dderbyn eich gwaed eich hun yn ôl cyn dod i benderfyniad.

# Ble alla i ddod o hyd i ragor o wybodaeth?

Gofynnwch i'ch tîm gofal iechyd am ragor o wybodaeth.

Efallai y byddwch hefyd yn gweld y cwestiynau enghreifftiol canlynol yn ddefnyddiol wrth drafod eich gofal gyda'ch tîm gofal iechyd.

Ydy adfer celloedd gwaed yn berthnasol i fy llawdriniaeth i?

Ydw i mewn perygl o waedu yn ystod fy llawdriniaeth?

A oes unrhyw risgiau o gael fy nghelloedd gwaed coch fy hun yn ôl?

Dydw i ddim eisiau cael gwaed rhoddwr; a fyddaf yn cael cynnig arbed celloedd?

A fydd cael arbed celloedd yn fy atal rhag bod yn rhoddwr gwaed yn y dyfodol?

Beth yw manteision cael fy nghelloedd gwaed coch fy hun yn ôl?

Beth os nad ydw i eisiau fy ngwaed fy hun yn ôl?

A yw arbed celloedd ar gael yn yr ysbyty hwn?

Rwy'n Dyst Jehofa; a allaf gael arbed celloedd o hyd?

## Ble alla i gael mwy o wybodaeth?

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am arbed celloedd yn ystod llawdriniaeth neu os hoffech wybod a yw ar gael yn eich ysbyty ac yn briodol ar gyfer eich llawdriniaeth arfaethedig, cysylltwch â'ch tîm gofal iechyd.

## Gwybodaeth ychwanegol

Paratowyd y daflen hon gan Grŵp Cynghori Arbed Celloedd y DU. Noder nad yw copïau caled ar gael i'w harchebu; gellir lawrlwytho fersiwn PDF.

Efallai y byddwch hefyd yn gweld bod y daflen wybodaeth i gleifion Derbyn Trallwysiad Gwaed yn ddefnyddiol. Mae'r daflen hon ar gael mewn amrywiaeth o fformatau a gellir ei gweld yn:
https://www.jpac.org.uk/transfusion-practice/consent/information-for-patients/

Os cewch unrhyw broblemau wrth lawrlwytho copi o'r daflen hon, cysylltwch ag UKCSAG@nhsbt.nhs.uk

**Cymru**

Rhif Cyfeirnod: **BH-080, Rhifyn 1**